



Llygryddion sy'n Peri Problem

Cyfnod Allweddol/Grŵp oedran CA2/3

Amser i gwblhau'r gweithgaredd 15 - 20 munud

Lleoliad Dan do neu yn yr awyr agored

Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar lygryddion cyffredin sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ac, o ganlyniad, ar fioamrywiaeth ardaloedd dyfrol.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

	Daearyddiaeth	Gwyddoniaeth
CA2	Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau <ul style="list-style-type: none">Nodi a disgrifio nodweddion dynol a naturiolDisgrifio'r achosion a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â sut mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid	Annibyniaeth Organebau <ul style="list-style-type: none">Sut mae gweithgareddau pobl yn effeithio ar yr amgylchedd byd-eang
CA3	Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau <ul style="list-style-type: none">Disgrifio ac esbonio nodweddion dynol a ffisegolEsbonio'r achosion a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â phrosesau dynol a ffisegol a'r gydberthynas rhwng y prosesauEsbonio sut a pham mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid a nodi tueddiadau a goblygiadau ar gyfer y dyfodol	Independence of Organisms <ul style="list-style-type: none">Sut a pham mae ffactorau amgylcheddol yn effeithio ar weoedd bwyd

Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Enwi ac adnabod llygryddion cyffredin.
- Awgrymu sut mae llygryddion cyffredin yn mynd i mewn i ardaloedd dyfrol.
- Deall yr effeithiau negyddol y gall llygryddion eu cael ar ardaloedd dyfrol.
- Trafod ac awgrymu pa lygryddion problemus sy'n achosi'r problemau gwaethaf.



Offer ac adnoddau

• Chwecw o boteli plastig wedi'u llenwi â'r canlynol:

- Slyri gwartheg - Llaeth neu ddŵr wedi'i gymysgu efo iogwrt, lliwiad bwyd gwyrdd neu frownin/ gronnau grefi er mwyn creu lliw gwyrddfrown
- Elifion silwair - Dŵr gyda glaswellt, paent neu inc du
- Gwastraff cegin heb ei drin - Dŵr wedi'i gymysgu efo olew olewydd/had rêp gyda philion llysiau/ ffrwythau
- Llaeth heb ei basteureiddio - Llaeth
- Carthion heb eu trin - Sudd afal yn gymysg â thalpiâu o fwyd ci/cath neu glai brown
- Elifion grawn bragwyr - Shandy neu sudd afal (gyda thameidiau ynddo) neu lemonêd cymylog

• Cardiau adnoddau - Llygryddion sy'n Peri Problem

Beth i'w wneud

- 1 Rhowch rywfaint o gefndir i'ch dysgwyr yn sôn am yr effaith a gaiff llygryddion problemus ar ardaloedd dyfrol, chwaraewch ein 'Gêm Geirfa - Llygryddion sy'n Peri Problem' neu darllenwch ein nodyn gwybodaeth 'Beth yw ansawdd dŵr'.
- 2 Gallwch naill ai baratoi'r poteli ymlaen llaw neu roi potel wag a llygryddion i bob grŵp er mwyn iddynt greu eu poteli eu hunain.
- 3 Gallwch wneud y canlynol:
 - (a) Cyflwyno un botel ar y tro i'ch grŵp a holi aelodau'r grŵp ynglŷn â chynnwys posibl y poteli. Defnyddiwch y cardiau adnoddau i labelu pa lygryddion a gynrychiolir gan bob potel (does dim angen i chi ddweud wrthynt fod y cynnwys yn ffug!).
 - (b) Holli eich dysgwyr yn grwpiau llai a rhoi i bob grŵp botel neu gyfres o lygryddion i'w labelu trwy ddefnyddio'r cardiau adnoddau.
- 4 A oes modd iddynt grwpio ffynonellau'r llygredd - h.y. diwydiannol, amaethyddol a domestig?
- 5 Yna, holltwch eich dysgwyr yn grwpiau llai a gofynnwch i bob grŵp drafod pa lygryddion a fyddai, yn eu tyb nhw, yn achosi'r niwed mwyaf i'r amgylchedd pe baent yn mynd i mewn i gwrs dŵr.
- 6 Ar ôl i'r holl grwpiau gael cyfle i drafod, gofynnwch iddynt rannu eu syniadau gyda'r grŵp ehangach. Efallai yr hoffech gofnodi'r ymatebion i weld pa grŵp sydd â'r atebion cywiraf.
- 7 Rhannwch y canlyniadau gyda'r grŵp, gydag 1 yn cynrychioli'r llygrydd gwaethaf a 6 yn cynrychioli'r llygrydd lleiaf niweidiol i'r amgylchedd.
 - 6 - Carthion domestig heb eu trin
 - 5 - Gwastraff cegin heb ei drin
 - 4 - Slyri gwartheg
 - 3 - Elifion grawn bragwyr
 - 2 - Elifion silwair
 - 1 - Llaeth heb ei basteureiddio
- 8 Gan ddibynnu ar oedran a gallu'r grŵp, trafodwch sut mae damweiniau llygredd yn digwydd a sut mae modd eu hosgoi.

Cwestiynau allweddol posibl

- Beth yw elifion silwair/slyri/carthion/elifion grawn bragwyr?
- Sut mae'r llygryddion hyn yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr?
- Beth all pobl ei wneud i leihau faint o lygryddion sy'n mynd i mewn i gyrsiau dŵr ac effeithio ar yr amgylchedd?



Addasu'r gweithgaredd ar gyfer anghenion/galluoedd gwahanol

Llai abl

- Yn hytrach na defnyddio set lawn o lygryddion problemus, dewiswch y rhai sydd fwyaf priodol i lefel dealltwriaeth eich dysgwyr.

Mwy abl

- Trafodwch pam mae'r sylweddau hyn yn niweidiol i'r amgylchedd a sut maent yn mynd i mewn i ardaloedd dyfrol. Gweler 'Gwybodaeth Ychwanegol'.

Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Ansawdd dŵr - nodyn gwybodaeth
- Ewch ati i greu cadwyn fwyd i ddangos yr effaith a gaiff llygryddion problemus ar fioamrywiaeth mewn ardaloedd dyfrol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gwefannau defnyddiol:

Astudiaeth achos yn ymwneud â damwain - Tancer Ilaeth

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/2149856.stm>

Young People's Trust for the Environment

<https://ypte.org.uk/factsheets/river-pollution/polluting-the-rivers>

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

0300 065 3000